**PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL EOC-04-02(min)**

**COFNODION**

Dyddiad: 22 Mai 2002

Amser: 9.30am

Lleoliad: Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Yn bresennol:**

| | | |
|---|---|---|
| Aelodau | Edwina Hart (Cadeirydd) | Gwyr |
| | Lorraine Barrett | De Caerdydd a Phenarth |
| | Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| | Helen Mary Jones | Llanelli |
| | David Melding | Canol De Cymru |
| | Peter Rogers | Gogledd Cymru |
| | Owen John Thomas | Canol De Cymru |
| Cynghorwyr i'r Pwyllgor | | |
| | Kate Bennett | Comisiwn Cyfle Cyfartal |
| | Dharmendra Kanani | Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol |
| | Will Bee | Comisiwn Hawliau Anabledd |
| Yn Cyflwyno i'r Pwyllgor | Ruth Marks | Prif Weithredwr, Chwarae Teg |
| | Yvonne Griffith-Jones | Swyddog Rhanbarthol Gogledd Cymru, Chwarae Teg |
| | Hanna Huws | Rheolwr Rhanbarthol Gogledd Cymru, Chwarae Teg |
| | Dr Elizabeth Jordan | Ymgynghorydd Arbenigol i'r Adolygiad o Sipsiwn Crwydrol |
| | Tim Wilson | Ymgynghorydd Cyswllt i'r Adolygiad o Sipsiwn Crwydrol |

| | | |
|---|---|---|
| Swyddogion | Peter Gregory | Pennaeth Personél, Grŵp Gwasanaethau Rheoli a Busnes |
| | Charles Willie | Pennaeth yr Uned Polisi Cydraddoldeb |
| | John Duggan | Uned Polisi Cydraddoldeb |
| | Michael Trickey | Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd Gweithredol |
| | Dr Ian Thomas | Moderneiddio Llywodraeth Leol |
| | | |
| | Howell Rees | Clerc y Pwyllgor |
| | James Owen | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Adroddiad y Cadeirydd**

Papur: EOC-04-02(p1)

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Janet Ryder, Val Lloyd, Huw Lewis ac Eleanor Burnham.

1.2 Cyflwynodd y Cadeirydd ei hadroddiad ysgrifenedig. Trafodwyd y materion canlynol:

- Roedd yn bwysig cynnal y symbyliad ar yr ymgyrch dros gyflog cyfartal. Yn dilyn lansiad llwyddiannus y CD-Rom ar gyflog cyfartal, targedodd yr ymgyrch fyfyrwyr drwy amlygu'r bwlch o ran cyflog sy'n bodoli rhwng dynion a merched sydd wedi graddio. Trefnwyd seminar i'r sector preifat ar gyflog cyfartal, a drefnwyd ar y cyd â Chyd-ffederasiwn Diwydiant Prydain (Cymru), ar gyfer 12 Medi 2002. Roedd y pwyllgor yn awyddus i weld cynnydd dros yr haf mewn perthynas â'r seminarau ar gyfer y sector cyhoeddus ar yr ymgyrch dros gyflog cyfartal.

**Eitem 2: Chwarae Teg**

2.1 Gwnaeth Ruth Marks gyflwyniad i'r pwyllgor ar waith Chwarae Teg, yn amlinellu'r meysydd ymchwil yr oedd y sefydliad yn gysylltiedig â hwy (a atodir fel Atodiad A). Roedd Chwarae Teg yn dibynnu ar ddatblygu

partneriaethau da yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ac roedd y sefydliad yn derbyn cyllid a chymorth gan y Cynulliad ar gyfer datblygu prosiectau ymchwil.

2.2 Amlinellodd Yvonne Griffith-Jones y gwaith yr oedd Chwarae Teg yn ymgymryd ag ef ar raglenni cyllid Ewropeaidd. Nod Chwarae Teg oedd prif ffrydio cydraddoldeb o fewn rhaglenni cyllid Ewropeaidd yng Nghymru fel rhan o'r bartneriaeth Cydraddoldeb Ewropeaidd. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys cynhyrchu canllawiau ysgrifenedig ar brif ffrydio cydraddoldeb o fewn rhaglenni Ewropeaidd a datblygu partneriaethau ar lefel leol a chenedlaethol er mwyn sicrhau bod cydraddoldeb o ran cenedl yn rhan o strwythurau'r rhaglen. Roedd Chwarae Teg wedi gweithio gyda'r swyddog newydd a benodwyd o Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar y gwaith o brif ffrydio cydraddoldeb o ran cenedl. Ailadroddwyd y gweithdrefnau a ddatblygwyd gan Chwarae Teg ar gyfer prif ffrydio cydraddoldeb yn yr ystyr ehangach, ledled y DU ac Ewrop. Byddai'r gwaith yr oedd Chwarae Teg ym ymgymryd ag ef o fudd i'r broses o greu rhwydwaith Ewropeaidd ar gyfle cyfartal a dylai ddod yn rhan hanfodol o ddatblygiad economaidd a chyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru.

2. 3 Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol wrth drafod:

- Gofynnodd y pwyllgor am ddiweddariad ar drefniadau cyfredol y Cynulliad ar ofal plant yn y cyfarfod nesaf (**pwynt gweithredu**). Byddai gan y pwyllgor ddiddordeb mewn mesur effaith amser hyblyg a gwaith shifft ar drefniadau gofal plant ynghyd â'r anawsterau cynyddol y gallai cyflogeion yn y sector preifat ddod ar eu traws. Cytunodd y pwyllgor hefyd fod y ddarpariaeth ar gyfer gofal plant dwyieithog yn bwysig. Bu Chwarae Teg yn rhan o Dasglu Cenedlaethol y Strategaeth Gofal Plant a chynigasant eu cymorth i'r pwyllgor mewn perthynas â'r gwaith hwn.
- Fel rhan o brosiect ymchwil, roedd Chwarae Teg wedi trafod y rhesymau dros anweithgarwch economaidd merched gyda'r Pwyllgor Datblygu Economaidd, yr Is-adran Materion Ewropeaidd a'r Uned Polisi Strategol. Roedd yr ymchwil yn edrych ar grwpiau gwahanol o ferched, y rhai mewn addysg neu hyfforddiant a'r

rhai a oedd mewn cyflogaeth neu'n ddi-waith. Cytunodd y pwyllgor ei bod yn bwysig cyflwyno doniau merched i gyflogaeth ffurfiol. Roedd merched fel arfer yn delio â phroblemau domestig fel salwch plant a gallai hyn gael effaith ar eu gwerthusiad perfformiad. Roedd yn bwysig codi ymwybyddiaeth ymhlith merched ar yr opsiynau a gynigiwyd gan gyflogwyr megis gweithio oriau hyblyg. Gofynnodd y Cadeirydd am y newyddion diweddaraf ar sefyllfa'r Cynulliad yn y maes hwn (**pwynt gweithredu**).Roedd Chwarae Teg yn ymwneud â Chynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth Awdurdod Datblygu Cymru ac roeddent yn cefnogi mentrau unigol mewn perthynas ag adeiladu ar allu a oedd yn gwella cymwysterau a sgiliau.

- Nid yw Chwarae Teg wedi profi anawsterau sylweddol wrth recriwtio aelodau newydd o staff â'r cymwysterau a'r profiad angenrheidiol ar yr agenda cydraddoldeb. Roedd Chwarae Teg yn bwriadu datblygu rhaglen hyfforddi staff mewnol ac allanol. Roedd swyddfeydd rhanbarthol Chwarae Teg yn cynnwys staff â phrofiad tymor hir mewn materion cydraddoldeb ac roedd y sefydliad yn defnyddio'r arbenigedd academaidd a oedd ar gael yng Nghymru yn aml.
- Roedd yn anodd mesur llwyddiant prif ffrydio cydraddoldeb yn rhaglenni cyllid Ewropeaidd, er y codwyd ymwybyddiaeth o ofynion cyfle cyfartal ymhlith y rhai a oedd yn gyfrifol am y rhaglenni. Arweiniodd hyn at wrthod rhai ceisiadau am nad oeddent yn bodloni'r meini prawf angenrheidiol.
- Ystyriodd y pwyllgor y dylid sicrhau bod mwy o gymorth ar gael i ofalwyr er mwyn sicrhau y gallent barhau mewn cyflogaeth. Soniodd Chwarae Teg am gymorth y prosiect 'Cyfartal' i ofalwyr yn Ynys Môn a Sir Benfro. Gofynnodd y Cadeirydd am gofnod o'r gwaith yr oedd Chwarae Teg yn ymgymryd ag ef yn y maes hwn (**pwynt gweithredu).**
- Roedd gan y pwyllgor ddiddordeb yng nghyfran y gwasanaethau gofal plant a ddarparwyd gan awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol o'i gymharu â'r sector preifat a'r costau cysylltiedig. Cytunodd y Cadeirydd y byddai'n trafod y posibilrwydd o gomisiynu papur ar y pwnc hwn gyda'r clerc.
- Cytunwyd y dylid gwahodd Chwarae Teg yn ôl i'r pwyllgor yn flynyddol **(pwynt gweithredu).** Byddai'r pwyllgor hefyd yn ystyried casgliadau ymchwil Chwarae Teg i gyflogaeth i ferched ar ôl iddo gael ei gwblhau **(pwynt gweithredu).**

**Eitem 3: Y Cynllun Cydraddoldeb Hiliol**

Papur: EOC 04-02(p2)

3.1 Cyflwynodd y Cadeirydd Gynllun Cydraddoldeb Hiliol drafft y Cynulliad. Byddai'r cynllun yn cael ei anfon allan fel testun ymgynghoriad a byddai'r pwyllgor yn cael cyfle i archwilio'r ymatebion. Byddai'r cynllun yn cael ei adolygu o fewn 12 mis yng ngoleuni'r ymarfer ymgynghori a safbwyntiau'r cyngor.

3.2 Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol wrth drafod:

- O fewn rhai meysydd o'r cynllun roedd angen mwy o eglurder a chadernid ynglyn â'r eirfa a ddefnyddiwyd er mwyn cysylltu'n weithredol â phobl yn ystod yr ymarfer ymgynghori.
- Gan fod proses fonitro a gwerthuso yn hanfodol i'r cynllun, dylid ymgorffori mwy o fanylion, amserlen â meincnodau ac eglurdeb ar y broses gyllidebu i'r ddogfen ddrafft.
- Roedd yn bwysig bod gwaith allgyrch ar gael ledled Cymru i hyrwyddo cymunedau cynhwysol.
- Cytunodd y pwyllgor i ystyried Cynlluniau Cydraddoldeb Hiliol Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad a oedd yn dechrau yn ystod tymor yr hydref ar sail cyfnod treigl (**pwynt gweithredu**). Cytunodd y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol i gynhyrchu enghreifftiau o arfer da i'w hystyried. Roedd gan y pwyllgor ddiddordeb hefyd yn y gwaith a gyflawnwyd gan Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad i brif ffrydio agendâu cydraddoldeb eraill.
- Cytunodd y pwyllgor fod y cynllun drafft y cytunwyd arno yn gychwyn da ond roedd angen gwneud mwy o waith. Yng ngoleuni penderfyniad y pwyllgor, cytunodd y Cadeirydd i wneud rhai diwygiadau i eiriad y cynllun cyn iddo gael ei ystyried yn y cyfarfod llawn **(pwynt gweithredu).** Cytunodd y pwyllgor i drafod yr ymateb i'r ymgynghoriad yn yr hydref (**pwynt gweithredu**). Byddai'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol yn cynorthwyo â'r gwaith o ddiwygio'r ddogfen ddrafft.

**Eitem 4: Y Strategaeth Recriwtio a Lleoli**

Papur: EOC 04-02(p3)

4.1 Ystyriodd y pwyllgor bapur ar gynnydd y broses ymgynghori ymhlith y staff ar strategaeth recriwtio a dethol y Cynulliad.

4.2 Codwyd y pwyntiau canlynol wrth drafod:

- Cytunodd y pwyllgor i wahodd Roger Mckenzie, awdur yr adroddiad 'Lifting Every Voice', i gyfarfod yn y dyfodol er mwyn trafod y cynnydd a wnaethpwyd gan y Cynulliad wrth ddatblygu argymhellion yr adroddiad **(pwynt gweithredu)**.
- Cafwyd anawsterau ymarferol, nas rhagwelwyd, yn ystod y rhaglen recriwtio beilot. Derbyniodd y pwyllgor fod angen cynnal proses ymgynghori gynhwysfawr cyn y gellid gwerthuso'r rhaglen beilot yn gywir. Dywedodd Peter Gregory i'r rhaglen fod yn broses wrthrychol a bod yr adborth cychwynnol yn awgrymu bod ymgeiswyr o'r farn iddynt gael y cyfle i arddangos eu sgiliau yn erbyn y cymwysterau gofynnol.
- Byddai'r rhaglen recriwtio yn cael ei gwerthuso mewn dau gam. Byddai'r gwerthusiad cyntaf yn broses weddol gyflym a fyddai'n nodi rhai themâu a chanlyniadau cyffredin. Byddai ymgynghorydd yn cael ei gyflogi ar gyfer yr ail werthusiad, a fyddai'n fwy cynhwysfawr, a fyddai'n cael ei gynnal dros gyfnod hwy. Byddai'r pwyllgor hefyd yn gallu ystyried rhai canlyniadau cychwynnol o'r broses werthuso yn ei gyfarfod cyntaf yn nhymor yr hydref ynghyd ag amlinelliad o'r anawsterau ymarferol a logistaidd y daethpwyd ar eu traws yn ystod yr ymarfer recriwtio **(pwynt gweithredu).** Cytunodd y pwyllgor i ofyn i Ochr yr Undebau Llafur i baratoi papur ar y strategaeth ar gyfer yr un cyfarfod (**pwynt gweithredu).**
- Dylid defnyddio arbenigedd y sefydliadau cydraddoldeb statudol yn ystod y broses werthuso.
- Byddai'r pwyllgor yn ystyried canlyniad proses ymgynghori'r staff yn ei gyfarfod nesaf ar 26 Mehefin, pan fyddai'r Ysgrifennydd Parhaol yn cyflwyno adroddiad i'r pwyllgor ar gynnydd y cynllun gweithredu **(pwynt gweithredu)**.

**Eitem 5: Yr Adolygiad o Sipsiwn Crwydrol**

Papur: EOC 04-02(p4)

5.1 Croesawodd y Cadeirydd Dr Elizabeth Jordon, ymgynghorydd arbenigol y pwyllgor ar gyfer yr Adolygiad o Sipsiwn Crwydrol a Tim Wilson, ymgynghorydd cyswllt y pwyllgor i'r cyfarfod.

5.2 Dywedodd Dr Jordon wrth y pwyllgor ei bod wedi gweithio gyda Sipsiwn Crwydrol ar lefel leol, rhanbarthol a rhyngwladol ers 1985. Roedd y gwaith hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar lety ac anghenion cymdeithasol Sipsiwn Crwydrol. Amlinellodd Dr Jordon brif flaenoriaethau'r adolygiad o'i safbwynt hi:

- Dylid ceisio safbwyntiau Sipsiwn Crwydrol yn ystod yr adolygiad.
- Dylai'r adolygiad geisio dilysu cyfreithlondeb symudedd fel ffordd o fyw a darparu cymorth i alluogi Sipsiwn Crwydrol i leisio eu barn eu hunain.
- Mae angen ymgynghori  ag Awdurdodau Lleol ynglyn â'r gwasanaethau a ddarperir i Sipsiwn Crwydrol.
- Dylai'r adolygiad geisio sicrhau bod darpariaethau addysg arloesol yn gyfreithlon.
- Dylid egluro'r sail gyfreithiol ar gyfer Sipsiwn Crwydrol, yn enwedig mewn perthynas â'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol.
- Prif flaenoriaeth yr adolygiad oedd darparu canlyniadau y gellir eu cofnodi a'u monitro.
- Er mwyn sicrhau bod y cyhoedd a'r cyfryngau yn ymwybodol o gynnwys yr adolygiad, gallai'r pwyllgor drefnu digwyddiadau cyhoeddus i godi proffil yr adolygiad.

5.3 Dywedodd Tim Wilson wrth y pwyllgor ei fod wedi gweithio i sefydliad gwirfoddol sy'n gweithredu yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg a'i fod wedi gweithio gyda Sipsiwn Crwydrol am ugain mlynedd. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys creu cysylltiadau rhwng Sipsiwn Crwydrol a sefydliadau mewn perthynas ag ystod o faterion. Rôl yr ymgynghorydd cyswllt yn yr adolygiad fyddai hwyluso trafodaethau priodol gyda grwpiau o Sipsiwn Crwydrol ledled Cymru. Byddai angen cynllunio cysylltiad y pwyllgor ag aelodau o gymuned y

Sipsiwn Crwydrol yn ofalus er mwyn osgoi achos o godi disgwyliadau. Yn ogystal, byddai angen i'r adolygiad fynd i'r afael â barn gyffredin ymhlith Sipsiwn Crwydrol, sef y ffaith bod gormod o ymchwil yn cael ei wneud i'w bywydau ac nid oes digon o lais ganddynt.

5.3 Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol wrth drafod:

- Fel rhan o'r adolygiad, penderfynodd y pwyllgor edrych ar iechyd ac addysg i ddechrau, yr oedd gan y Cynulliad gyfrifoldeb datganoledig amdanynt.
- Nid oedd y gofynion cyllidebol a oedd yn ofynnol ar gyfer darparu gwasanaeth effeithiol ar gyfer Sipsiwn Crwydrol yn fawr o ran cyfanswm y gwariant.
- Roedd ymweliadau safle yn angenrheidiol a byddai angen ymdrin â hwy yn ofalus, oherwydd bod llety yn fater allweddol ar gyfer yr adolygiad. Dylid cynnal ymweliadau ar draws Cymru gydag ychydig o aelodau yn cymryd tystiolaeth ar ran y pwyllgor. Byddai angen briffio Aelodau yn drylwyr ynglyn â phrotocolau safle, materion lleol sensitif a dulliau o gael tystiolaeth cyn mynd ar ymweliadau safle.
- Byddai angen i'r adolygiad wrthsefyll profiadau'r gymuned sefydlog a dangos y canlyniadau cadarnhaol y gellid eu cyflawni.
- Byddai angen codi proffil yr adolygiad, yn enwedig ymhlith y gymdeithas ddinesig yng Nghymru.
- Byddai gan y pwyllgor ddiddordeb yn y broses o ddatblygu syniadau arloesol ar gyfer darparu amcanion mesuredig fel rhan o'r adolygiad.
- Byddai angen i'r adolygiad ystyried enghreifftiau o anfantais ddwbl y gallai rhai Sipsiwn Crwydrol ddod ar ei thraws.
- Roedd gan y pwyllgor ddiddordeb yn yr amrywiaeth o ieithoedd yr oedd Sipsiwn Crwydrol yn eu siarad yng Nghymru. Os yn bosibl, dylai'r system addysg gynnal y broses o drosglwyddo iaith drwy genedlaethau o Sipsiwn Crwydrol. Byddai hyn yn cynnwys y posibilrwydd o Sipsiwn Crwydrol yn dod yn athrawon.
- Gallai'r pwyllgor gymhwyso casgliadau perthnasol o'r adolygiad addysg i greu system addysg hyblyg ar gyfer Sipsiwn Crwydrol.
- gellid trefnu arddangosfa ffotograffau yn y Cynulliad i godi ymwybyddiaeth o'r adolygiad

5.5 Cytunwyd ar y canlynol:

- Byddai papur cynhwysfawr yn edrych ar y broses o ddarparu addysg i blant Sipsiwn Crwydrol yng Nghymru yn cael ei gomisiynu er mwyn iddo gael ei ystyried yng nghyfarfod cyntaf y pwyllgor yn nhymor yr hydref (**pwynt gweithredu**). Byddai’r Clerc, Ymgynghorydd Arbenigol, Ymgynghorydd Cyswllt a Dr Ian Thomas yn cyfarfod i drafod cynnwys y papur.
- Byddai’r Clerc a’r ymynghorydd Cyswllt yn datblygu syniadau ar gyfer rhaglen o ymweliadau, a fyddai’n dechrau yn ystod toriad yr haf (**pwynt gweithredu).**
- Byddai’r Clerc a’r Ymgynghorydd Arbenigol yn cynhyrchu rhestr ddarllen ar gyfer yr aelodau a oedd yn amlygu meysydd y byddai angen i’r pwyllgor eu harchwilio. Dylai’r rhestr ddarllen ymgorffori enghreifftiau o arfer da ledled Ewrop (**pwynt gweithredu).**

**Eitem 6: Adroddiad Blynyddol Drafft y Pwyllgor Cyfle Cyfartal**

Papur: EOC 04-02(p5)

6.1 Ystyriodd y pwyllgor ei adroddiad blynyddol drafft. Cytunodd y pwyllgor i wneud y diwygiadau canlynol:

- Dylai’r cyflwyniad i’r adroddiad wahaniaethu’n glir rhwng adran y pwyllgor (atodiad A) ac adrannau’r Cynulliad (atodiadau B a C) i egluro cyfrifoldebau.
- Dylai rhagair y Cadeirydd gynnwys cyfeiriad at yr anawsterau y daeth y pwyllgor ar eu traws yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
- Dylid diwygio yr adran yn adroddiad y pwyllgor sy’n ymwneud â cheiswyr lloches yng Nghymru i ddangos barn y pwyllgor bod integreiddio â chymunedau yn well na chanolfannau llety. Dylid cyfeirio hefyd at waith y pwyllgor ar dalebau, yr arfer o gadw ceiswyr lloches mewn carchardai a’r cyfarfodydd gyda’r Gwasanaeth Cynnal Cenedlaethol i Geiswyr Lloches ac awdurdodau lleol.

6.2 Ystyriodd y pwyllgor atodiadau B a C i’r adroddiad. Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol wrth drafod:

- Er mwyn sicrhau bod yr adroddiad yn fwy hygyrch yn y dyfodol dylid mabwysiadu fformat cyffredin ar gyfer yr adran yn nodi gweithgaredd adrannol penodol (atodiad B2).
- Croesawodd y pwyllgor yr ymrwymiad o’r lefel uchaf ar y cynigion a’r camau a gymerodd y Cynulliad ynglyn â chydraddoldeb. Fodd bynnag, byddai’r pwyllgor yn disgwyl gweld gwelliant cyson a gwaith pellach ar faterion ynglyn â chydraddoldeb yn y dyfodol.
- Byddai swyddogion yn trafod casgliadau’r adroddiad blynyddol gyda’r sefydliadau cydraddoldeb statudol .
- Byddai’r pwyllgor yn dymuno gweld ymagwedd archwilio systematig yn cael ei mabwysiadu gan isadrannau’u Cynulliad  er mwyn nodi effaith newidiadau polisi ar rannau arbennig o’r gymdeithas.
- Ar hyn o bryd, roedd yr Uned Polisi Strategol yn datblygu offeryn i sicrhau bod materion ynglyn â chydraddoldeb yn cael eu hystyried wrth ddatblygu a gweithredu polisïau. Cytunodd y sefydliadau cydraddoldeb statudol i gysylltu â’r uned ynglyn â’i gwaith datblygu. Byddai’r pwyllgor yn ystyried y cynnydd yn yr hydref (**pwynt gweithredu).**

6.3 Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at Banel y Cadeiryddion i ofyn am gyfle i drafod hyfforddiant ar gydraddoldeb ac effaith penderfyniadau  polisi ar yr agenda cyfle cyfartal **(pwynt gweithredu)**.

**Eitem 7: Cofnodion y cyfarfod diwethaf a phapur i’w nodi**
**Papur:** EOC 03-02(min) ac EOC 04-02(p6)

7.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf.

7.2 Cytunodd y pwyllgor y dylai Fforwm Lesbiaid, Hoywon a Phobl Ddeuryw Cymru fod yn un o aelodau gwahoddedig sefydlog y pwyllgor **(pwynt gweithredu)**. Yn ogystal, ar ôl cwblhau’r Adolygiad o’r Iaith Gymraeg**,** cytunwyd y byddai’r pwyllgor yn ystyried gwahodd cynrychiolydd o Fwrdd yr Iaith Gymraeg i fod yn aelod gwahoddedig sefydlog. Yn y cyfamser, byddai cynrychiolydd o Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn cael ei wahodd i fynychu

cyfarfodydd ar sail anffurfiol **(pwynt gweithredu).**

7.3 Nododd y pwyllgor y papur a oedd yn darparu dadansoddiad o gyfarwyddwyr anweithredol Cymraeg eu hiaith Ymddiriedolaethau'r GIG ac awdurdodau iechyd. Mynegodd y pwyllgor bryder ynglyn â'r ffaith nad oedd siaradwyr Cymraeg yn cael eu cynrychioli'n ddigonol mewn ardaloedd lle ceid siaradwyr Cymraeg. Er enghraifft nid oes unrhyw siaradwyr Cymraeg ar Fwrdd Ymddiriedolaeth Sir Benfro a Derwen. Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at Fwrdd yr Iaith Gymraeg i ofyn am gyngor ar y mater hwn **(pwynt gweithredu).**

Daeth y cyfarfod i ben am 12.05pm